Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**


| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 12.09.25 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymgynghoriad ar y gofynion dylunio ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch newydd mewn Cymraeg a Cymraeg Craidd |


### Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

- Mae'r strwythur newydd yn ceisio lleihau'r unedau o 6 i 5, gan wahaniaethu'n fwy eglur rhwng pwysoli UG ac Uwch yn y Gymraeg a Chymraeg Craidd. Byddai 40% o'r cymhwyster yn cael ei gwblhau ym Mlwyddyn 12 a 60% ym Mlwyddyn 13, gan adlewyrchu'r strwythur presennol. Hefyd, byddai'r gostyngiad i 5 uned yn unol â chymwysterau UG eraill.

- Ceir ymdrech glir i adeiladu ar gryfderau'r cymwysterau UG ac Uwch presennol. Mae brwdfrydedd a boddhad disgyblion yn greiddiol i wireddu'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r cymhwyster yn ymddangos yn addas ar gyfer galluogi disgyblion i gyfathrebu'n effeithiol mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau ystyrlon.

- Mae'r cymwysterau newydd yn cefnogi dysgwyr i symud yn raddol ar hyd y continwwm medrau Cymraeg.

- Mae Uned 2 (Cymraeg) yn arholiad allanol sy'n galluogi disgyblion i archwilio'r Gymraeg, ddoe a heddiw, gyda ffocws ar agweddau hanesyddol, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol. Er ei bod yn cynnig hyblygrwydd ac opsiynau personol, bydd hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth o statws yr iaith ac yn annog ymfalchïo yn yr etifeddiaeth Gymraeg.

- Er bod llai o destunau gosod, mae dewis eang o destunau i'w hastudio. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod y cynnwys yn ddigon sylweddol o ran her a swmp gwaith, yn enwedig ar gyfer dysgu UG Cymraeg ym Mlwyddyn 12.

- Mae'r cymwysterau'n cynnig cyfleoedd ymarferol i ddefnyddio'r iaith yn gywir mewn amrywiaeth o gyweiriau. Fodd bynnag, dylid ystyried addasrwydd natur y tasgau hyn, a lefel yr her – er enghraifft, ysgrifennu cofnodion cyfarfodydd yn Uned 2 Cymraeg – gan sicrhau nad yw elfennau sy'n debyg i'r byd gwaith yn cael blaenoriaeth dros ddiddordebau a boddhad disgyblion.

- Bydd yr elfen synoptig yn parhau yn Uned 4 (Cymraeg), yn ystod y drafodaeth grŵp, gan ganiatáu i ddisgyblion ganolbwyntio ar feysydd o ddiddordeb personol.

- Cynigir dulliau asesu amrywiol sy'n cynnig cydbwysedd effeithiol rhwng medrau llafar ac ysgrifenedig, gan gyfuno arholiadau allanol ac asesiadau di-arholiad.

- Mae pwyslais ar yr elfen lafar yn asesu Cymraeg Craidd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r pwysoli yn yTGAU newydd ac yn rhoi mwy o bwysigrwydd ar ddatblygu medrau cyfathrebu, gan wneud y cymhwyster yn fwy hygyrch i ystod ehangach o ddisgyblion. Fodd bynnag, gyda phwyslais ar y llafar, byddai cynyddu i 50% yn hytrach na 45% yn fwy priodol.

- Cytunwn y dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd gynnwys cyfleoedd i astudio amrywiaeth briodol o destunau llenyddol ac anllenyddol o wahanol gyfnodau. Fodd bynnag, efallai bod modd bod yn hyblyg yma – drwy

gynnig y dewis o ddrama, ffilm, straeon byrion neu hyd yn oed nofel fer er mwyn sicrhau bod y pwnc yn ennyn diddordeb.

- 
- Mae cynnal yr arholiadau llafar gan arholwyr allanol y hollbwysig gan ei fod yn codi statws y pwnc a rhoi'r cyfle i ddisgyblion gyfathrebu â pherson sydd ddim yn gyfarwydd. Mae hyn yn sicrhau safonau cyson ac yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r dysgwyr.

- Cytunwn nad yw'r dull presennol o asesu gramadeg yn ymateb i anghenion dysgwyr yn y cymhwyster Cymraeg. Er bod cywirdeb ieithyddol yn bwysig, mae angen dull asesu newydd sy'n caniatáu i ddisgyblion ddangos eu medrau ieithyddol mewn ffordd fwy ystyrlon.

- Mae'r amcanion asesu'n cymharu'n gadarnhaol â chymwysterau mewn pynciau eraill.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Q1: Hoffech chi ymateb i'r cwestiynau yn Rhan A: Cynigion dylunio ar gyfer Safon UG a Safon Uwch yn Y Gymraeg?**

**Hoffwn**

**Rhan A: Cynigion dylunio ar gyfer UG a Safon Uwch newydd mewn Cymraeg**

**(ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u haddysgu mewn ysgolion categori 2 a 3)**

**<u>Strwythur y cymhwyster</u>**

**Cynnig 1: Dylid adolygu strwythur y cymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg i gynnwys gostyngiad yn nifer yr unedau o 6 i 5. Dylai'r cymhwyster gynnwys 2 uned UG a 3 uned U2.**

Rydym yn cynnig gostyngiad yn nifer yr unedau o 6 uned yn strwythur y cymhwyster cyfredol i 5 uned yn strwythur y cymhwyster newydd. Byddai hyn yn golygu lleihau nifer yr unedau yn UG i 2, tra'n cadw 3 uned yn U2.

Wrth gynnig y newid hwn, rydym o'r farn ei fod yn adlewyrchu'n well pwysoliadau gofynnol y cymwysterau UG ac U2, gydag unedau UG yn cyfrannu 40% i'r Safon Uwch lawn ac unedau U2 yn cyfrannu 60%. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir mewn cymwysterau iaith tebyg, gan gynnwys cymwysterau UG a Safon Uwch mewn Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gallai'r newid hwn wneud y cymwysterau'n fwy hylaw i ganolfannau ac i ddysgwyr ac adlewyrchu'r amser dysgu ac addysgu yn well yn y flwyddyn

gyntaf o astudio. Er enghraifft, mewn perthynas â'r cymhwyster UG cyfredol, nododd athrawon mai dim ond dau dymor sydd ganddynt i gyflwyno cynnwys a datblygu sgiliau dysgwyr, gan y gall arholiadau llafar ddechrau mor gynnar â mis Mawrth, gyda chyflwyno asesiadau di-arholiad ac arholiadau allanol ym mis Mai. Gallai'r newid hefyd helpu i fynd i'r afael â chanfyddiadau ymhlith dysgwyr cyfredol a darpar ddysgwyr o ran swmp y cynnwys ac asesu yn y pwnc hwn o'i gymharu â phynciau eraill y gallant ddewis eu dilyn.

Er gwaethaf y gostyngiad mewn unedau, mae'r strwythur arfaethedig yn dal i ganiatáu ystod eang o ddulliau asesu ar draws y cymhwyster, gan gynnwys cyfleoedd i asesu sgiliau llafaredd yn unedau UG ac U2, ac asesu cyfathrebu ysgrifenedig trwy arholiad allanol ac asesiad di-arholiad. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod yr ystod o ddulliau asesu yn y cymhwyster cyfredol yn apelio at ddysgwyr ac yn cefnogi asesiadau iaith sydd yn ddilys ac yn afaelgar.

**Q2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q3: Eglurwch eich ateb isod.**

Cefnogwn y ffaith bod y strwythur yn newid a bod ymgais i leihau'r unedau o 6 i 5 er mwyn gwahaniaethu rhwng y pwysoli yn y cymhwyster UG ac Uwch. Mae hyn yn golygu bod 40% o'r cymhwyster ym mlwyddyn 12 a 60% ym mlwyddyn 13 sy'n dilyn y cymhwyster cyfredol.  Rydyn ni hefyd yn cydnabod byddai lleihau o 6 i 5 uned hefyd yn cyd-fynd yn well gyda phynciau eraill.

Fodd bynnag, mae'r disgrifiadau o'r gofynion yn yr unedau UG Blwyddyn 12 yn cwestiynu tybed os oes digon o swmp gwaith, her a thestunau i lenwi'r sesiynau addysgu – yn enwedig yn uned 2 yn yr asesiad 'Y Gymraeg yn ei chyd-destun' lle mae gofyn i ddisgyblion ysgrifennu mewn ffurfiau megis bwletin newyddion, araith, adroddiad ayyb. Byddai gwersi'n seiliedig ar ffurfiau o'r fath yn gallu bod yn ailadroddus ac yn fyr sydd o ganlyniad yn golygu bod disgyblion yn colli diddordeb ac yn gollwng y pwnc ar ddiwedd blwyddyn 12. Mae'r ffaith bod barddoniaeth wedi diflannu'n gyfan gwbl o'r arholiad UG Blwyddyn 12 yn golygu nad oes cymaint o gig ar yr asgwrn o ran swmp gwaith a her. Rydyn ni'n awgrymu felly bod angen sicrhau bod y cynnwys yn ddigonol. Yn ogystal, byddai'n fuddiol i'r rheoleiddiwr roi enghreifftiau clir o'r tasgau posibl ar gyfer Uned 2 er mwyn sicrhau bod yr ystod o ffurfiau'n ddigon amrywiol i gynnal cymhelliant a chynnig digon o her i bob dysgwr.

**Pwrpas a nodau**

Cynnig 2:  Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg annog dysgwyr i ddatblygu eu diddordeb a'u mwynhad o'r Gymraeg wrth iddynt:

- gyfathrebu'n effeithiol, yn gywir, yn glir, ac yn hyderus, ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyweiriau
- deall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa a chyd-destun wrth gyfathrebu, mynegi, dadansoddi, dehongli, deall ac ymateb i iaith.

- ysgrifennu’n greadigol ac yn ffeithiol at amrywiaeth o bwrpasau, mewn ffordd strwythuredig
- dadansoddi testunau llenyddol ac anllenyddol, a thestunau cyfarwydd ac anghyfarwydd, yn annibynnol
- gwrando ac ymateb i farn eraill wrth fynegi safbwynt, gan gyfrannu'n ddigymell
- mynegi barn annibynnol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o ystod o destunau llenyddol ac anllenyddol
- gwneud cysylltiadau priodol rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc

Dylai’r cymhwyster gael ei ddylunio i:

- hyrwyddo profiad amrywiol, cadarnhaol, perthnasol a chyfoes o ddiwylliannau, cefndiroedd a chymunedau Cymraeg a Chymreig
- galluogi dysgwyr i gael dealltwriaeth o ddatblygiad a statws y Gymraeg drwy astudio ystod o destunau, ac i ddeall y cyd-destunau ehangach sydd yn effeithio ar y Gymraeg gan gynnwys cyd-destunau hanesyddol, cymdeithasol, gwleidyddol, sefydliadol a diwylliannol, ar lefel leol a chenedlaethol
- darparu sylfaen addas i alluogi dysgwyr i barhau i astudio a defnyddio'r iaith yn effeithiol, yn hyderus ac yn naturiol mewn ystod o gyd-destunau mewn cymdeithas ddwyieithog

Mae'r pwrpas a'r nodau sydd yn cael eu cynnig yn adeiladu ar gryfderau'r cymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg (Iaith Gyntaf) cyfredol, fel y'u nodwyd gan randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys galluogi dysgwyr i gyfathrebu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ac at amrywiaeth o bwrpasau, gwrando ac ymateb i eraill, a dadansoddi testunau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn annibynnol.

Maent hefyd yn cefnogi dilyniant i ddysgwyr drwy eu galluogi i adeiladu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn 14-16 drwy'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg newydd. Mae hyn yn cynnwys astudio amrywiaeth o destunau llenyddol ac anllenyddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, ac ystyried arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa a chyd-destun wrth gyfathrebu.

Mae hefyd rai newidiadau ac ychwanegiadau pwysig ar sail adborth rhanddeiliaid. Er enghraifft, er gwaethaf cydnabod yr angen i ddysgwyr gyfathrebu'n 'gywir', mynegodd rhanddeiliaid bryderon y gall gorbwysleisio cywirdeb dynnu sylw oddi ar ymwybyddiaeth o sut y gellir addasu iaith i'w defnyddio'n effeithiol, yn naturiol ac yn briodol mewn gwahanol gyweiriau a chyd-destunau. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn awyddus i sicrhau bod y cymhwyster yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn ac i weld perthnasedd datblygu sgiliau Cymraeg gydol oes ar gyfer cyfrannu at gymdeithas ddwyieithog.

**Q4: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q5: Eglurwch eich ateb isod.**

Cefnogwn yr ymgais i adeiladu ar a chryfhau’r cymwysterau cyfredol UG ac Uwch. Mae brwdfrydedd a boddhad disgyblion yn y Gymraeg yn hollbwysig ac yn angenrheidiol er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae’r cymhwyster yn ymddangos fel ei fod yn bodloni y galw i ddisgyblion fedru cyfathrebu mewn nifer o sefyllfaoedd a chyd-destunau pwrpasol. Hoffem hefyd weld mwy o eglurder ynghylch rôl trawsieithu yn y cymhwyster newydd, gan sicrhau bod yr asesiad yn canolbwyntio ar ddefnyddio’r sgil mewn cyd-destunau dilys heb danseilio profiad dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cyd-destunau dysgu**

Cynnig 3: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, nawr ac yn y dyfodol.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys:

- cyd-destunau llenyddol ac anllenyddol
- cyd-destunau ymarferol a chreadigol
- cyd-destunau sydd yn caniatáu i ddysgwyr ystyried cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc

Dylai'r cyd-destunau alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos dealltwriaeth o’r canlynol:

- strwythurau, gramadeg a phatrymau iaith lafar ac ysgrifenedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol
- cynnwys, ffurf ac arddull, gan gynnwys tôn a phriodoldeb iaith mewn amrywiaeth o destunau llenyddol ac anllenyddol
- diwylliannau a thraddodiadau Cymru

statws a defnydd y Gymraeg mewn gwlad ddwyieithog, yn hanesyddol a heddiw, gan gynnwys yn y gymuned, mewn cymdeithas ac yn y gweithle

Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu adborth gan randdeiliaid ynghylch yr angen i gynnwys ystod eang o gyd-destunau dysgu ystyrlon i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau. Dylai'r cyd-destunau hyn gefnogi dysgu ac addysgu gafaelgar, ac asesu iaith dilys. Roedd rhanddeiliaid hefyd eisiau i'r cyd-destunau dysgu ddatblygu dealltwriaeth a mwynhad dysgwyr o'r Gymraeg ac o ddiwylliant Cymreig, yn ogystal â gwerthfawrogi eu Cymreictod eu hunain.

Mae'r cyd-destunau dysgu cynigiedig yn adeiladu ar y dull newydd o integreiddio o fewn y cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg newydd. Maent hefyd yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid am y profiadau cadarnhaol a roddir i ddysgwyr sydd yn astudio UG a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith, a chynnwys cyd-destunau sydd yn canolbwyntio ar statws a phwysigrwydd Cymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae hon yn agwedd y dywedodd cynrychiolwyr o brifysgolion wrthym a fyddai'n fuddiol i bob dysgwr sydd yn symud ymlaen I addysg uwch.

**Q6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q7: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn bod y cymwysterau newydd yn cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg.

Mae’r uned 2 sy’n arholiad allanol yn rhoi cyfle i ddisgyblion archwilio’r Gymraeg, ddoe a heddiw, gyda ffocws ar ffactorau hanesyddol, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol o dan y pennawd ‘Y Gymraeg, ddoe a heddiw’. Tra bod hwn yn cynnig mwy o hyblygrwydd a dewis o fewn y cymhwyster ac yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddewis ffocysau a diddordebau personol, gobeithiwn bydd hyn yn rhoi boddhad i ddisgyblion wrth astudio’u hetifeddiaeth a threftadaeth.

Gwerthfawrogwn felly bod ymgais yma i hyrwyddo ymwybyddiaeth gan roi mwy o statws i’r iaith.

Yn ogystal, dylid ystyried cynnwys ystod ehangach o ddeunyddiau creadigol fel straeon byrion, ffilmiau byrion neu ddramâu cyfoes er mwyn sicrhau bod y pwnc yn aros yn berthnasol ac yn apelgar i ystod eang o ddysgwyr.

**Cynnwys**

Cynnig 4: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau canlynol yn yr iaith lafar ac yn ysgrifenedig:

- dangos cywirdeb ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio cystrawen a gramadeg yr iaith mewn amrywiaeth o ffurfiau a chyd-destunau ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a phwrpasau
- defnyddio iaith yn y cywair priodol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau at bwrpasau creadigol, i drafod testunau llenyddol, anllenyddol, gweledol a chlywedol, at amrywiaeth o bwrpasau ymarferol, gan gynnwys trawsieithu a golygu, ac ystyried y pwrpas a'r gynulleidfa
- trafod, ystyried, cwestiynu ac ymateb yn ddigymell ac mewn modd bwriadol a hyderus, i farn a safbwyntiau eraill er mwyn dod i gasgliadau gwybodus
- dadansoddi'n feirniadol a chyfleu ymateb personol i amrywiaeth o destunau, gan gynnwys testunau cyfarwydd ac anghyfarwydd, gan ddefnyddio terminoleg ieithyddol addas
- dewis darnau perthnasol o destunau er mwyn esbonio ac enghreifftio safbwyntiau a barn bersonol
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o farddoniaeth a rhyddiaith o ystod o wahanol gyfnodau a lleoedd
- tynnu gwybodaeth o ystod o destunau perthnasol i ddeall, gwerthuso a gwneud sylwadau ar ffynonellau gwybodaeth a chrynhoi a dod i gasgliadau

Mae'r cynnwys cynigiedig yn adeiladu ar gryfderau'r cymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg (Iaith Gyntaf) cyfredol, fel y'u nodwyd gan randdeiliaid. Mae hefyd yn cefnogi dilyniant dysgwyr drwy adeiladu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn 14-16 oed drwy'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg newydd.

Er mwyn cyd-fynd â phwrpas a nodau'r cymhwyster, mae symudiad tuag at gydbwyso 'cywirdeb' wrth gymhwyso sgiliau cyfathrebu â defnydd effeithiol, digymell a hyderus o'r iaith.

Nod y cynnwys cynigiedig yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn perthynas ag amrywiaeth eang o destunau, gan gynnwys rhai gweledol a chlywedol. Teimlwyd y byddai hyn yn apelio at ddysgwyr, gan ganiatáu iddynt astudio amrywiaeth o ddeunyddiau o ddiddordeb personol yn annibynnol, gan gynnwys testunau a ffynonellau gwybodaeth digidol.

Yn dilyn adborth gan amrywiaeth o randdeiliaid, mae ffocws cryfach ar ddatblygu a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau gramadeg ac iaith mewn cyd-destunau ymarferol. Er enghraifft, pwysleisiodd llawer o randdeiliaid bwysigrwydd sgiliau iaith ymarferol fel golygu er mwyn cefnogi dilyniant dysgwyr i astudio ymhellach ac i'r byd gwaith.

Rydym hefyd yn cynnig cynnwys trawsieithu fel sgil hanfodol i ddysgwyr sydd eisiau byw, astudio a gweithio mewn cymdeithas ddwyieithog. Mae'n bwysig nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon y gallai hyn dynnu sylw oddi ar y profiad dysgu ac addysgu unigryw yn yr ystafell ddosbarth Gymraeg gan nodi bod dysgwyr sydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu datblygu'r sgiliau hyn ar draws eu hastudiaeth o ystod o bynciau eraill. Ar y llaw arall, dywedodd rhanddeiliaid eraill wrthym y gall asesu trawsieithu yn y pwnc hwn ddarparu cyd-destun dilys a pherthnasol ar gyfer datblygu gwybodaeth ieithyddol a thechnegol o'r Gymraeg. Ar ôl ystyried y gwahanol safbwyntiau a fynegwyd i ni, rydym yn cynnig bod y sgiliau hyn yn cael eu hasesu trwy dasgau asesu di-arholiad i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cymhwyso eu sgiliau mewn cyd-destunau dilys, bywyd go iawn.

Rydym wedi symud i ffwrdd o'r hyn a ystyriwyd yn dasgau rhy beirianyddol neu artiffisial, gan ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng darnau neu destunau. Yn hytrach, rydym wedi cadw ffocws ar ddysgwyr yn tynnu gwybodaeth o ystod o destunau i ddeall, gwerthuso a gwneud sylwadau ar wybodaeth. Mae hyn yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid am gryfderau asesu synoptig er mwyn annog dysgwyr i astudio ystod eang o destunau Cymraeg yn annibynnol.

**Q8: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q9: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn bod ystod o destunau i'w hastudio yn y cymwysterau newydd er y gostyngiad mewn testunau gosod. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y cynnwys yn ddigonol, yn cynnig her briodol ac yn ddigon swmpus ar gyfer yr addysgu yn enwedig ar gyfer y cwrs AS ym mlwyddyn 12.

Gwerthfawrogwn y cyfle i ddisgyblion fedru gwneud defnydd o'r iaith yn ymarferol a chael dealltwriaeth o iaith yn gywir mewn sefyllfaoedd a chyweiriau gwahanol er mwyn eu paratoi ar gyfer cyrchfannau'r dyfodol. Fodd bynnag, rhaid ystyried addasrwydd natur y cyfleoedd hyn a lefel yr her, er enghraifft, ysgrifennu cofnodion cyfarfodydd yn uned 2 fel ffurf. Hoffem hefyd weld mwy o eglurder ynghylch cydbwysedd rhwng tasgau ymarferol a rhai creadigol er mwyn osgoi sefyllfa lle mae elfennau sy'n adlewyrchu'r byd gwaith yn cael eu blaenoriaethu

dros ddatblygu hyder a mwynhad disgyblion yn y Gymraeg. Rhaid sicrhau nad yw ceisio cyflwyno ffurfiau a fyddai'n addas ar gyfer byd gwaith er enghraifft yn cael ei flaenoriaethu ar draul boddhad a diddordeb y disgyblion.

Croesawn y ffaith bod yr elfen synoptig yn parhau yn uned 4 yn ystod y drafodaeth grŵp er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gallu seilio'r gwaith ar ddiddordebau personol.

**Cynnwys**

**Cynnig 5: Dylai fod gostyngiad yn nifer y testunau gosod y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu hastudio ar draws cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg i gefnogi pa mor hylaw a gafaelgar yw'r cymwysterau.**

Rydym yn cynnig gostyngiad yn nifer y testunau gosod y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu hastudio ar gyfer UG a Safon Uwch. Mae hyn yn adlewyrchu'r pryderon yr ydym wedi'u clywed am swmp y cynnwys yn y cymhwyster cyfredol a'r effaith negyddol y mae hyn yn ei chael ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer asesiadau o ystyried yr amser dysgu ac addysgu cyfyngedig.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod ailadrodd o fewn ac ar draws unedau yn y cymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg (Iaith Gyntaf) cyfredol o ran y math o gynnwys y mae'n ofynnol i ddysgwyr ei astudio. Gall hyn effeithio ar ddiddordeb ac arwain at ddyblygu mewn asesu. Mae hyn yn arbennig o wir gydag asesiadau llafar, a all arwain at yr arholiad yn ymestyn y tu hwnt i'r hyd a argymhellir i sicrhau bod pob dysgwr o fewn y grŵp yn gallu dangos digon o wybodaeth am ehangder y cynnwys.

Mae'r cynnig hefyd yn adlewyrchu'r farn a rannwyd â ni bod angen amrywiaeth ehangach o gyd-destunau o fewn y cymhwyster, gan gynnwys llenyddol ac anllenyddol, ymarferol a chreadigol, er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn apelio at ystod eang o ddysgwyr. Mae defnyddwyr cymwysterau, gan gynnwys addysg uwch a chyflogwyr, wedi dweud wrthym mai dyma'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i gefnogi dilyniant pellach.

Er gwaethaf cydnabod manteision posibl gostyngiad mewn testunau gosod, roedd rhai rhanddeiliaid yn sôn am bwysigrwydd cydbwyso pa mor hylaw yw'r cymhwyster gyda sicrhau bod y 'cynnwys yn ddigonol o fewn ac ar draws unedau UG ac U2. Mae hyn yn hanfodol i gefnogi dysgu ac addysgu effeithiol a gafaelgar, ac i ddiogelu gwerth a statws canfyddedig y cymhwyster ar gyfer cefnogi dilyniant, yn enwedig i addysg uwch.

**Q10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Q11: Eglurwch eich ateb isod.**

Rydyn yn cefnogi'r cynnig bod angen cwtogi ar y testunau gosod. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y cynnwys yn ddigonol ar gyfer UG ac Uwch. Y peth pwysicaf er mwyn sicrhau pa mor afaelgar yw'r testunau yw gwneud yn siŵr eu bod yn aplegar ac yn ennyn diddordeb.

Rhaid ystyried hefyd hyd yr arholiad llafar sydd wedi i glustnodi fel awr a chwarter. Teimlwn efallai bod yn gyfnod rhy hir i ddisgyblion fedru trafod (yn naturiol) am gymaint o amser. Byddai'n ddefnyddiol i'r rheoleiddiwr ailystyried hyd yr arholiad llafar ac ystyried modelau mwy hyblyg sy'n sicrhau profiad naturiol a llai o straen i ddysgwyr.

**Cynnwys**

Cynnig 6: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg gynnwys cyfleoedd i astudio amrywiaeth briodol o destunau llenyddol ac anllenyddol o wahanol gyfnodau (clasurol, traddodiadol a chyfoes) gan gynnwys

- drama
- testun rhyddiaith
- detholiad o farddoniaeth
- testunau anllenyddol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at amrywiaeth o bwrpasau

Rydym yn cynnig cael gwared â'r gofyniad i ddysgwyr astudio ffilm. Er bod rhanddeiliaid yn glir y gall hyn fod yn elfen afaelgar o'r cymhwyster cyfredol, fe wnaethant adrodd y gall astudio ffilm a drama ar gyfer arholiad llafar cyfredol Uned 1 arwain at ddyblygu mewn cynnwys ac asesu sgiliau. Yn hytrach, pwysleisiwyd y manteision i ddysgwyr o allu astudio un testun penodol yn fanwl, gan awgrymu y gall hyn fod yn ffordd fwy hylaw, gafaelgar a dilys o asesu gwybodaeth lenyddol a sgiliau cyfathrebu.

Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf dros yr angen i ddysgwyr barhau i astudio drama fel testun gorfodol o fewn y cymhwyster newydd. Mae hyn oherwydd nad yw bellach yn ofyniad i'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg newydd, sydd yn golygu y gallai dysgwyr symud ymlaen i addysg uwch heb gael y profiad hwn. Roedden nhw hefyd yn credu y gallai ysgogi dysgwyr i fwynhau'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth drwy fynychu perfformiadau byw a phrofi theatr a diwylliant Cymraeg.

Er na fyddai gofyniad ffurfiol i'r cymhwyster gynnwys ffilm, rydym yn glir y dylai'r cymhwyster gael ei ddylunio i alluogi dysgwyr i astudio amrywiaeth o ddeunyddiau, gan gynnwys testunau a ffynonellau gwybodaeth gweledol. Mae hyn yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid y dylai'r cymhwyster gynnwys mwy o hyblygrwydd a dewis i ddysgwyr astudio themâu a materion o ddiddordeb personol. Mae hefyd o bosibl yn ehangu'r mathau o destunau y gall dysgwyr ddod ar eu traws, er mwyn cefnogi eu diddordeb yn well, ac i gynyddu ymwybyddiaeth o sut mae cyfryngau, celfyddydau a diwylliant Cymraeg yn cyfrannu at gymdeithas gyfoes.

Er bod rhanddeiliaid yn cytuno i raddau helaeth ar bwysigrwydd cynnwys testunau cyfoes sydd yn adlewyrchu profiadau a hunaniaethau amrywiol dysgwyr ledled Cymru, nodwyd hefyd bod angen cydbwyso hyn gyda ffocws priodol ar gynnwys mwy traddodiadol, gan gynnwys testunau llenyddol o amrywiaeth o gyfnodau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i gynnig sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudio ymhellach ac yn cynnal ei werth a'i statws fel pwnc.

Tra bod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am y pwyslais cyfredol ar farddoniaeth o fewn y cymhwyster, gan nodi y gall cynnwys barddoniaeth o fewn unedau UG ac U2 effeithio ar ba mor apelgar yw'r cymhwyster i rai dysgwyr, awgrymodd rhanddeiliaid eraill mai sut mae barddoniaeth yn cael ei asesu ar hyn o bryd sydd yn effeithio ar brofiad a diddordeb dysgwyr. Yn benodol, mynegodd athrawon a dysgwyr bryderon am y gorddibyniaeth ar adalw gwybodaeth, gan gynnwys y gofyniad i ddysgu a chofio dyfyniadau. Rydym yn cynnig y dylai tasgau asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o farddoniaeth fod yn llyfr agored. Mae hyn

yn adlewyrchu'r hyn y mae athrawon yn ei ddweud wrthym sydd yn newid cadarnhaol yn y cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg newydd a'r farn bod hyn yn sicrhau bod y cymhwyster yn fwy hylaw, gafaelgar a dilys.

**Q12: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno'n gryf**

**Q13: Eglurwch eich ateb isod**

Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg gynnwys cyfleoedd i astudio amrywiaeth briodol o destunau llenyddol ac anllenyddol o wahanol gyfnodau (clasurol, traddodiadol a chyfoes).

Gwerthfawrogwn canolbwyntio ar un testun yn hytrach na dau yn uned 1. Er teimlwn bod yr amrywiaeth o brofiadau yn fuddiol i ddisgyblion, yn enwedig y rhai sydd am astudio'n bellach yn y maes ar ôl ysgol, felly teimlwn bod astudio drama yn brofiad da gan nad yw bellach yn orfodol ar y cwrs TGAU newydd o Fedi 2026. Cytunwn bod astudio drama hefyd yn annog disgyblion i fynychu perfformiadau yn y theatr ac yn agor drysau ac ennyn diddordeb i ddiwylliant ehangach.

Teimlwn bod angen symud gyda'r oes er mwyn i'r pwnc fod yn apelgar i ddisgyblion ond mae astudio rhyddiaith yr oesoedd canol a'r hengerdd yr un mor bwysig – eto er mwyn paratoi ar gyfer cyrsiau tu hwnt i'r ysgol ac er mwyn sicrhau bod cymhwyster Uwch yn y Gymraeg yn cael ei gweld fel pwnc academaidd sy'n gallu cysylltu gyda phynciau clasurol eraill. Teimlwn bod cydbwysedd rhwng yr hen a'r newydd yn hollbwysig. Yn ogystal, byddai sicrhau hyblygrwydd ychwanegol yn y dewis testunau, er enghraifft, cynnwys cyfleoedd i astudio straeon byrion neu eitemau cyfoes – yn cynorthwyo athrawon i ddarparu cwricwlwm mwy personol ac apelgar i'w dysgwyr.

Cytunwn mai asesiad 'llyfr agored' ddylai fod yn seiliedig ar y farddoniaeth a hynny er mwyn sicrhau nad prawf cof o wybodaeth a dyfyniadau ydyw. Mae hefyd yn ddilyniant o'r TGAU newydd.

## Strwythur asesu

Cynnig 7: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg newydd gynnwys ystod eang o ddulliau asesu, gan gynnwys:

- arholiad llafar
- arholiad ysgrifenedig allanol
- asesiad di-arholiad

Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys athrawon a dysgwyr, yn gwerthfawrogi'n fawr yr ystod eang o ddulliau asesu yn y cymhwyster cyfredol gan ei fod yn cefnogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau dilys a gafaelgar. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddangos eu gwybodaeth mewn ffyrdd heblaw trwy arholiadau allanol, rhywbeth nad yw bob amser yn cael ei gynnig ar draws yr amrywiaeth o

bynciau UG a Safon Uwch y maent yn eu hastudio. Rydym yn cynnig bod ystod eang o ddulliau asesu yn parhau yn y cymhwyster newydd i adlewyrchu'r adborth cadarnhaol hwn, ac i gefnogi profiadau hylaw a gafaelgar i ddysgwyr a'u hathrawon.

Mae'r cynnig hwn hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau yn yr ystod o gymwysterau Cymraeg cenedlaethol14-16. Mae cadw maint priodol o asesiadau di-arholiad yn sicrhau bod elfen o hyblygrwydd i ganolfannau barhau i addasu dysgu ac addysgu i anghenion eu dysgwyr, gan gefnogi profiadau asesu hylaw, gafaelgar a chynhwysol.

**Q14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q15: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn gyda'r ffyrdd amrywiol o asesu/r disgyblion sy'n gydbwysedd effeithiol rhwng llafar ac ysgrifenedig ac yn gyfuniad o arholiadau allanol ac asesiadau di-arholiad.

**Strwythur asesu**

**Cynnig 8: Fel rhan o gymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg, dylid asesu sgiliau llafaredd dysgwyr ar draws unedau UG ac U2. Dylai'r asesiadau llafar gynnwys cyfleoedd i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys llenyddol ac anllenyddol. Dylai cyfanswm yr asesiadau llafar (ar draws UG a Safon Uwch) gyfrannu 40% o'r marciau at y cymhwyster cyfan.**

Rydym yn cynnig cadw arholiadau llafar fel gofyniad gorfodol mewn unedau UG ac U2 er mwyn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir ar sgiliau llafaredd yn y pwnc hwn. Roedd dysgwyr ac athrawon yn cydnabod y pwysigrwydd y mae dysgwyr yn ei roi ar ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu llafar, ac roeddent yn glir y gall yr agwedd hon helpu i wneud y cymhwyster yn fwy apelgar i ystod ehangach o ddysgwyr.

Mae rhanddeiliaid yn cydnabod gwerth rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a dangos eu sgiliau llafaredd mewn cyd-destunau llenyddol, a phwysigrwydd hyn wrth adlewyrchu treftadaeth lenyddol Cymru. Fodd bynnag, dywedodd dysgwyr y byddent hefyd yn croesawu'r cyfle I gymhwyso ac addasu'r sgiliau hyn i amrywiaeth ehangach o gyd-destunau gan gydnabod sut y gall hyn eu helpu i symud ymlaen i astudio ymhellach ac i'r byd gwaith.

Mae'r cynnig i gynyddu pwysoliad yr asesiadau sydd yn canolbwyntio ar lafaredd o 35% o'r cymhwyster cyfredol cyfan i 40% o'r cymhwyster newydd cyfan yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir ar sgiliau cyfathrebu llafar a nodau strategol ehangach ar gyfer y Gymraeg. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r penderfyniad i gynyddu pwysoliad yr asesiadau llafar yn y TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg newydd.

**Q16: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q** 17 :

Croesawn yr angen i'r elfen lafar fod yn 40%. Mae'n cyd-fynd gyda'r pwysoli yn yr arholiadau TGAU newydd ac yn adlewyrchu'r pwysigrwydd i ddisgyblion ddatblygu'u sgiliau cyfathrebu, tra'n ei wneud yn gymhwyster fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach o ddisgyblion. Er mwyn sicrhau cysondeb, byddai'n fuddiol darparu hyfforddiant safonol i arholwyr allanol a sicrhau bod yr un disgwyliadau'n cael eu cymhwyso ar draws canolfannau.

**Strwythur asesu**

**Cynnig 9: Dylai arholiadau llafar cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg gael eu hasesu gan arholwr allanol.**

Roedd rhanddeiliaid yn glir bod dysgwyr yn mwynhau'r profiad o gael eu hasesu gan arholwr allanol gan ei fod yn rhoi profiad dilys iddynt o ddefnyddio Cymraeg mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mae hefyd yn ychwanegu ymdeimlad o statws ac achlysur ac yn gwahaniaethu'r asesiadau UG a Safon Uwch o brofiad blaenorol gyda chymwysterau.

Gall y cynnig i fynnu bod dysgwyr yn cael eu hasesu gan arholwr allanol gefnogi cysondeb mewn marcio a phrofiadau ar draws carfannau a rhwng canolfannau. Gall hyn sicrhau bod y cymwysterau yn cael eu gweld yn drylwyr, dibynadwy a dilys, yn ogystal â hylaw i ganolfannau.

Fel rhan o'r ymgysylltu, gofynnom i randdeiliaid ystyried unrhyw fanteision o asesiadau llafar y gellid eu cynnal trwy ddulliau amgen, fel cynadledda digidol. Roedd llawer o athrawon a dysgwyr yn teimlo'n gryf y gallai hyn effeithio ba mor hylaw, dibynadwy a gafaelgar fydd yr asesiadau pwysig hyn.

**Q18: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno'n gryf**

**Q19: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn yn gryf dylai'r arholiadau llafar gael eu cynnal gan arholwyr allanol. Trwy wneud, mae'n rhoi statws i'r pwnc ac yn rhoi cyfrifoldeb a chyfle i ddisgyblion gyfathrebu gyda pherson nad ydyn nhw'n adnabod eisoes. Credwn bod y disgyblion yn elwa'n fawr ar gyfleoedd fel hyn ac yn bwysig iawn cadw'r arholi wyneb-yn wyneb. Mae'r defnydd o arholwyr allanol hefyd yn sicrhau cysondeb yn y safonau ar draws a chyfleoedd teg i bob disgybl.

**Strwythur asesu**

**Cynnig 10: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg newydd gynnwys asesu drwy arholiad ysgrifenedig allanol yn unedau UG ac U2.**

Rydym yn cynnig bod y cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg newydd yn parhau i gynnwys arholiadau ysgrifenedig allanol ar draws unedau UG ac U2. Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys athrawon, o'r farn y gall hyn helpu i sicrhau y bydd y cymwysterau'n ddibynadwy, trwyadl, cadarn a hylaw.

Er gwaethaf hyn, roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf bod dau arholiad ysgrifenedig allanol ar ddiwedd y cwrs Safon Uwch yn creu heriau ynglyn â pha mor hylaw yw'r arholiadau i ddysgwyr, gan achosi baich asesu. Rydym yn cynnig bod yr unedau U2 sydd yn cynnwys arholiadau ysgrifenedig allanol yn cael eu lleihau i un.

**Q20: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q21: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn y dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg newydd barhau i gynnwys arholiadau ysgrifenedig allanol ar draws unedau UG ac Uwch a byddai lleihau'r unedau U" o ddau i un yn lleihau'r baich i ddysgwyr a'r baich asesu. Yn ogystal, hoffem sicrhau bod cynnwys y cymhwyster yn parhau i ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer mynediad llwyddiannus i addysg uwch ac yn cyd-fynd â disgwyliadau prifysgolion yng Nghymru a thu hwnt.

**Strwythur asesu**

Cynnig 11: Fel rhan o gymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg, dylid rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ramadegol trwy asesiadau sydd yn canolbwyntio ar gymhwyso sgiliau ymarferol ac sydd yn berthnasol i'r byd gwaith ac astudio ymhellach.

Mae rhanddeiliaid yn cydnabod y pwysigrwydd y mae angen ei roi ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o ramadeg ac iaith. Fodd bynnag, maent wedi mynegi barn gref ar y dull o asesu hyn o fewn y cymhwyster cyfredol. Maent yn credu ei fod yn rhy ddamcaniaethol ac nad yw'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth mewn ffyrdd perthnasol ac ystyrlon. Yn ogystal â hyn, mynegodd athrawon bryderon am y dull cyfredol o asesu gramadeg ochr yn ochr â barddoniaeth. Mae hynny o achos faint o gynnwys sydd yn cael ei asesu o fewn arholiad ysgrifenedig 2 awr, a'r heriau sydd yn wynebu dysgwyr wrth baratoi ar gyfer yr asesiad.

Rydym yn cynnig y dylai asesiadau sydd yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth ramadegol alluogi dysgwyr i gymhwyso eu sgiliau mewn cyd-destunau mwy ymarferol sydd yn berthnasol i'r byd gwaith ac astudio ymhellach. Gall hyn sicrhau bod yr asesu'n hylaw i ddysgwyr. Rydym hefyd yn cynnig bod gwybodaeth a dealltwriaeth ramadegol yn cael eu hasesu'n gyfannol trwy'r holl asesiadau sydd yn canolbwyntio ar gyfathrebu ysgrifenedig a llafar effeithiol.

**Q22: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q23: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn nad yw’r ffordd gyfredol o asesu gramadeg yn bodloni anghenion y dysgwyr. Teimlwn, er bod cywirdeb ieithyddol yn bwysig, bod angen newid y ffordd mae’n cael ei asesu gan nad yw mewn gwirionedd yn galluogi disgyblion i arddangos eu gallu ieithyddol. Rydyn yn cydnabod yr heriau a wynebir gan ddysgwyr wrth baratoi ar gyfer yr asesiad hwn. Rydym hefyd yn argymell y dylid darparu canllawiau clir i athrawon ar sut i integreiddio asesu sgiliau gramadegol gyda datblygiad cyfathrebu naturiol, fel bod yr asesiadau’n fwy perthnasol ac ystyrlon i fywyd go iawn.

Cytunwn gyda’r cynnig bod gwybodaeth a dealltwriaeth ramadegol yn cael eu hasesu'n gyfannol trwy'r holl asesiadau sydd yn canolbwyntio ar gyfathrebu ysgrifenedig a llafar effeithiol.

**Strwythur asesu**

Cynnig 12: Dylai'r amcanion asesu (AA) o fewn y cymhwyster gynnwys ymdrin ag amrywiaeth o is-rannau sydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- AA1: Deall ac ymateb (50%)
- Ymateb yn feirniadol ac yn gydlynol i amrywiaeth o destunau llafar, ysgrifenedig a gweledol trwy ddewis a dehongli deunydd perthnasol.
- Coladu a gwerthuso gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, croesgyfeirio'n briodol a chrynhoi a dod i gasgliadau.
- Dangos gwybodaeth am destunau/pynciau penodol ac arwyddocâd eu cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol, gan ddefnyddio dadansoddiad beirniadol a gwerthuso dehongliadau eraill.
- Gwrando ac ymateb i eraill ac ystyried eu cyfraniadau a'u safbwyntiau.

AA2: Cyfathrebu a mynegiant (50%)

- Cyfathrebu'n gywir, yn glir ac mewn ffordd strwythuredig, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion ieithyddol.
- Defnyddio gwybodaeth am ramadeg yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau.
- Cyfathrebu gan ddefnyddio cyweiriau ieithyddol amrywiol a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ac at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd.
- Datblygu safbwyntiau a syniadau perthnasol, crynhoi a dod i gasgliadau.

Mae'r amcanion asesu sydd yn cael eu cynnig yn adlewyrchu mewnbwn gan arbenigwyr pwnc ac asesu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â phwrpas, nodau a chynnwys y cymhwyster ac i sicrhau cymhariaeth â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd yn ofynnol mewn cymwysterau UG a Safon Uwch mewn ieithoedd eraill.

Maent hefyd yn adeiladu ar y dysgu 14-16  drwy'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â chefnogi cysondeb â'r Lefelau Cyfeirio Cyffredin a fydd yn cael eu diffinio yng Nghod Llywodraeth Cymru ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg (gweler adran 3).

**Q24: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q25: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn bod yr amcanion asesu'n cymharu'n ffafriol gyda chymwysterau o bynciau eraill.

**Strwythur asesu**

**Cynnig 13: Amlinelliad o'r cymhwyster**

**Mae'r tabl isod yn rhoi amlinelliad o'r cymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg (Iaith Gyntaf) cyfredol**

| Cyfredol | Uned | Pwysoliad |
|---|---|---|
| **UG** | Uned 1: arholiad llafar<br>Rhan 1 – drama<br>Rhan 2 – Ffilm | 15 % |
| | Uned 2: Asesiad di-arholiad | 10% |
| | Uned 3<br>Arholiad ysgrifenedig | 15 % |
| **U2** | Uned 4:<br>Arholiad llafar | 25% |
| | Uned 5:<br>Arholiad ysgrifenedig | 15% |
| | Uned 6:<br>Arholiad Ysgrifenedig | 20% |

Mae'r amlinelliad o'r cymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg isod at ddibenion enghreifftiol yn unig. Rydym yn gwahodd ymatebwyr i roi adborth ar unrhyw agweddau. Efallai yr hoffech ystyried: strwythur y cymhwyster, cynnwys unedau, amrywiaeth o ddulliau asesu, amrywiaeth o destunau ac elfennau sydd yn cael effaith o ran pa mor hylaw, gafaelgar, dibynadwy a dilys fydd y cymhwyster fel canlyniad.

| Newydd | Uned | Pwysoliad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| UG | **Uned 1: Arholiad llafar** | 20% | Arholiad llafar: Drama<br>• tasg pâr/grŵp – drama (testun gosod)<br>• mynegi barn – trafodaeth yn canolbwyntio ar ddewis o themâu sydd yn gysylltiedig â thestun gosod (cyfle i archwilio testunau llenyddol ac anllenyddol ychwanegol sydd yn gysylltiedig â'r thema, sydd naill ai wedi cefnogi dysgu ac addysgu neu sydd yn tystio i ymdrin yn annibynnol – e.e. rhyddiaith glasurol; profiad drama byw neu mewn sgript; testunau ychwanegol gan yr un dramodydd; dogfennau cyfoes yn canolbwyntio ar themâu cysylltiedig) |
| | **Uned 2: Arholiad ysgrifenedig** | 20% | Arholiad ysgrifenedig: uned integredig sydd yn canolbwyntio ar thema drosfwaol,<br>• archwilio amrywiaeth o gyd-destunau sy'n sydd yn effeithio ar ddatblygiad a statws yr iaith, diwylliannau a hunaniaethau Cymraeg sydd yn gysylltiedig â thema drosfwaol (gan gynnwys astudio darnau o destunau llenyddol ac anllenyddol sydd yn galluogi dysgwyr i ddewis meysydd o ddiddordeb personol, gan gynnwys ffactorau llenyddol, hanesyddol, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol) |
| U2 | **Uned 3: Arholiad llafar** | 20% | Arholiad llafar: Nofel<br>• trafodaeth pâr/grŵp – Nofel ac elfen synoptig |
| | **Uned 4: Asesiad di-arholiad** | 20% | Asesiad di-arholiad: Datblygiad iaith<br>• ymchwilio a mynegi barn ar thema o berthnasedd cyfredol<br>• ysgrifennu creadigol |
| | **Uned 5: Arholiad ysgrifenedig** | 20% | Arholiad ysgrifenedig: Barddoniaeth ac iaith<br>• barddoniaeth ar hyd yr oesoedd (yn cynnwys clasurol a chyfoes – llyfr agored)<br>• sgiliau iaith – gwybodaeth a dealltwriaeth ramadegol trwy gyfrwng tasgau ymarferol |

**Q26. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q27: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn gyda'r awgrymiadau o fewn y grid. Mae'r ffaith bod yr asesiadau di-arholiad wedi symud i flwyddyn 13 yn golygu bydd y disgyblion wedi datblygu'u sgiliau'n bwrpasol erbyn hynny. Deallwn felly mai dewis yr ysgol bydd uned 3 a'r elfen farddoniaeth yn uned 5. Croesawn hyn o ran hyblygrwydd, ond bydd sicrhau cysondeb gyda thestunau ar draws yn heriol ond yn angenrheidiol. Byddai hefyd yn fuddiol sicrhau bod dulliau asesu ac amcanion dysgu yn cyd-fynd yn glir â'r TGAU newydd er mwyn osgoi bylchau mewn sgiliau ac i sicrhau dilyniant llyfn i ddysgwyr wrth symud ymlaen i UG ac Uwch.

Rydyn ni'n croesawu'r ffaith bod pwysoliad y llafar wedi newid. Mae'n 50% o'r UG ond yn 33.3% o'r U2.

**Q28: Hoffech chi ymateb i'r cwestiynau yn Rhan B: Cynigion dylunio ar gyfer UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd newydd?**

**Hoffwn**

**Rhan B: Cynigion dylunio ar gyfer UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd newydd**

**(ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau Categori 1)**

**Strwythur y cymhwyster**

**Cynnig 1: Dylid adolygu strwythur y cymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd i gynnwys gostyngiad yn nifer yr unedau o 6 i 5. Dylai'r cymhwyster gynnwys 2 uned UG a 3 uned U2.**

Rydym yn cynnig gostyngiad yn nifer yr unedau o 6 uned yn strwythur y cymhwyster cyfredol i 5 uned yn strwythur y cymhwyster newydd Byddai hyn yn golygu lleihau nifer yr unedau UG i 2, tra'n cadw 3 uned yn U2.

Wrth gynnig y newid hwn, rydym o'r farn ei fod yn adlewyrchu'n well pwysoliadau gofynnol cymwysterau UG ac U2, gydag unedau UG yn cyfrannu 40% i'r Safon Uwch lawn ac unedau U2 yn cyfrannu 60%. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir mewn cymwysterau iaith tebyg, gan gynnwys cymwysterau UG a Safon Uwch mewn Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gallai'r newid hwn wella pa mor hylaw yw'r cymhwyster i ganolfannau ac i ddysgwyr ac adlewyrchu'r amser dysgu ac addysgu yn well yn y flwyddyn gyntaf o astudio. Er enghraifft, mewn perthynas â'r cymhwyster UG cyfredol, nododd athrawon mai dim ond dau dymor sydd ganddynt i gyflwyno cynnwys a datblygu sgiliau dysgwyr, gan y gall arholiadau llafar ddechrau mor gynnar â mis Mawrth, gyda chyflwyno asesiadau di-arholiad ac arholiadau allanol yn digwydd ym mis Mai. Gallai'r newid hefyd helpu i fynd i'r afael â chanfyddiadau ymhlith dysgwyr cyfredol a darpar ddysgwyr o faint uwch o gynnwys ac asesu yn y pwnc hwn na phynciau eraill y gallant ddewis eu dilyn.

Er gwaethaf y gostyngiad mewn unedau, mae'r strwythur arfaethedig yn dal i ganiatáu ystod eang o ddulliau asesu ar draws y cymhwyster, gan gynnwys cyfleoedd i asesu sgiliau llafaredd yn UG ac U2, ac asesu cyfathrebu ysgrifenedig trwy arholiad allanol ac asesiad di-arholiad. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod yr ystod o ddulliau asesu yn y cymhwyster cyfredol yn apelio at ddysgwyr ac yn cefnogi asesu iaith dilys a gafaelgar.

**Q29: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q30**

Cefnogwn y ffaith bod y strwythur yn newid a bod ymgais i leihau'r unedau o 6 i 5 er mwyn gwahaniaethu rhwng y pwysoli yn y cymhwyster AS ac A2. Mae hyn yn golygu bod 40% o'r cymhwyster ym mlwyddyn 12 a 60% ym mlwyddyn 13 sy'n dilyn y cymhwyster cyfredol. Rydyn ni hefyd yn cydnabod byddai lleihau o 6 i 5 uned hefyd yn cyd-fynd yn well gyda phynciau eraill.

**Pwrpas a nodau**

Cynnig 2: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd annog dysgwyr i ddatblygu eu diddordeb a'u mwynhad o Gymraeg wrth iddynt:

- cyfathrebu'n effeithiol, yn glir, ac yn hyderus, ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyweiriau
- deall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa a chyd-destun wrth gyfathrebu, mynegi, dadansoddi, dehongli, deall ac ymateb i iaith.
- ysgrifennu'n greadigol ac yn ffeithiol at amrywiaeth o bwrpasau
- dadansoddi testunau llenyddol ac anllenyddol, a thestunau cyfarwydd ac anghyfarwydd, yn annibynnol
- gwrando ac ymateb i farn eraill trwy gyfrwng rhyngweithio cymdeithasol gan gyfrannu'n ddigymell ac yn hyderus
- mynegi barn annibynnol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau llenyddol ac anllenyddol
- gwneud cysylltiadau priodol rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc a rhwng testunau

Dylai'r cymhwyster gael ei ddylunio i:

- hyrwyddo profiad amrywiol, cadarnhaol, perthnasol a chyfoes o ddiwylliannau, cefndiroedd a chymunedau Cymraeg a Chymreig
- galluogi dysgwyr i gael dealltwriaeth o ddatblygiad a statws y Gymraeg drwy astudio amrywiaeth o destunau, ac i ddeall y cyd-destunau ehangach sydd yn effeithio ar y Gymraeg gan gynnwys cyd-destunau hanesyddol, cymdeithasol, gwleidyddol, sefydliadol a diwylliannol, ar lefel leol a chenedlaethol

- cefnogi dysgwyr i siarad a defnyddio Cymraeg yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ochr yn ochr â'u hastudiaeth yn ogystal â chynnig sylfaen addas ar gyfer dilyniant sgiliau Cymraeg yn y dyfodol mewn bywyd, astudio ymhellach a'r byd gwaith
- annog dysgwyr i weld arwyddocâd eu cyfraniad i gymdeithas ddwyieithog lwyddiannus

Mae'r pwrpas a'r nodau sydd yn cael eu cynnig yn adeiladu ar gryfderau'r cymhwyster TAG UG a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith cyfredol, fel y'u nodwyd gan randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys galluogi dysgwyr i gyfathrebu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau, gwrando ac ymateb i farn eraill, a dadansoddi testunau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn annibynnol.

Maent hefyd yn cefnogi dilyniant dysgwyr drwy eu galluogi i adeiladu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn 14-16 drwy'r cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd newydd. Mae hyn yn cynnwys datblygu ymhellach eu gallu i gyfrannu'n ddigymell ac yn hyderus at sgyrsiau a thrafodaethau a mynegi eu hunain mewn ystod o gyd-destunau ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a phwrpasau.

Mae hefyd rai newidiadau ac ychwanegiadau pwysig ar sail adborth rhanddeiliaid. Er enghraifft, mynegodd rhanddeiliaid bryderon y gall gorbwysleisio cywirdeb ddigalonni dysgwyr, yn ogystal â thynnu sylw i ffwrdd o ymwybyddiaeth o sut y gellir addasu iaith i'w defnyddio'n effeithiol, yn naturiol ac yn briodol mewn gwahanol gyweiriau a chyd-destunau.

Bwriad y cymhwyster yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r hyder i ddefnyddio eu Cymraeg ym mhob agwedd ar fywyd, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, yn ogystal â'u paratoi i fyw, dysgu a gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

**Q31: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno'n gryf**

**Q32: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn yn gryf y dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd annog dysgwyr i ddatblygu eu diddordeb a'u mwynhad o Gymraeg yn ôl yr amcanion a nodir.

Rydym yn gwbl argyhoeddiedig o ran cefnogi bwriad y cymhwyster, sef cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r hyder i ddefnyddio eu Cymraeg ym mhob agwedd ar fywyd, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, yn ogystal â'u paratoi i fyw, dysgu a gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Mae hyn yn hollbwysig os ydyn ni am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Cyd-destunau dysgu

Cynnig 3: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, nawr ac yn y dyfodol.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys:

- cyd-destunau llenyddol ac anllenyddol
- cyd-destunau ymarferol a chreadigol
- cyd-destunau sydd yn caniatáu i ddysgwyr ystyried cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc

Dylai'r cyd-destunau annog dealltwriaeth o:

- strwythurau, gramadeg a phatrymau iaith lafar ac ysgrifenedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol
- cynnwys, ffurf ac arddull, gan gynnwys tôn a phriodoldeb iaith mewn amrywiaeth o destunau llenyddol ac anllenyddol
- diwylliannau a thraddodiadau Cymru
- statws a defnydd y Gymraeg mewn gwlad ddwyieithog, yn hanesyddol a heddiw, gan gynnwys yn y gymuned, mewn cymdeithas a'r gweithle

Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu adborth gan randdeiliaid ynghylch yr angen i gynnwys ystod eang o gyd-destunau dysgu ystyrlon i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau. Dylai'r cyd-destunau hyn gefnogi dysgu ac addysgu gafaelgar ac asesu iaith dilys. Roedd rhanddeiliaid hefyd eisiau i'r cyd-destunau dysgu ddatblygu dealltwriaeth a mwynhad dysgwyr o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, yn ogystal â gwerthfawrogi eu Cymreictod eu hunain.

Mae'r cyd-destunau dysgu cynigiedig hefyd yn adlewyrchu yr hyn y mae rhanddeiliaid wedi'i ddweud wrthym am agwedd lwyddiannus a chadarnhaol ar y cymhwyster cyfredol, sef, 'Y Gymraeg yn y Gymdeithas'. Mae hyn yn galluogi cynnwys sydd yn canolbwyntio ar statws hanesyddol a chyfoes y Gymraeg, a phwysicrwydd y Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn. Mae hon yn agwedd y dywedodd cynrychiolwyr o brifysgolion wrthym a fyddai'n fuddiol i bob dysgwr sydd yn symud ymlaen i addysg uwch

**Q33: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno'n gryf**

**Q34: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, nawr ac yn y dyfodol. Cefnogwn yr angen i gynnwys ystod eang o gyd-destunau dysgu ystyrlon i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Cytunwn dylai'r cyd-destunau dysgu ddatblygu dealltwriaeth a mwynhad dysgwyr o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, yn ogystal â gwerthfawrogi eu Cymreictod eu hunain. Yn bwysicach, credwn bod cynyddu'r nifer o siaradwyr yn y gweithle'n hollbwysig.

**<u>Cynnwys</u>**

Cynnig 4: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau canlynol yn yr iaith lafar ac ysgrifenedig:

- dangos effeithiolrwydd wrth ddefnyddio cystrawen a gramadeg yr iaith mewn amrywiaeth o ffurfiau a chyd-destunau at wahanol bwrpasau
- defnyddio iaith yn y cywair priodol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau at bwrpasau creadigol, i drafod testunau llenyddol ac anllenyddol, i drawsieithu, ac at amrywiaeth o bwrpasau ymarferol gan ystyried y pwrpas a'r gynulleidfa -trafod, ystyried ac ymateb yn ddigymell ac mewn modd bwriadol a hyderus, i farn a safbwyntiau eraill er mwyn dod i gasgliadau gwybodus -defnyddio technoleg gwirio iaith yn briodol ond hefyd dangos y gallu i gyfleu ystyr hebddo
- dadansoddi'n feirniadol a chyfleu ymateb personol i destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd, gan ddefnyddio terminoleg ieithyddol addas
- dewis darnau perthnasol o destunau mewn trafodaethau, er mwyn egluro ac enghreifftio safbwyntiau personol
- cymharu testunau er mwyn deall a rhoi sylwadau ar yr hyn sy'n gyffredin ac yn wahanol rhyngddynt; gwerthuso gwybodaeth i grynhoi a dod i gasgliadau

Mae'r cynnwys cynigiedig yn adeiladu ar gryfderau'r cymhwyster cyfredol, fel y nodwyd gan randdeiliaid ac arbenigwyr pwnc. Mae hefyd yn cefnogi dilyniant dysgwyr drwy adeiladu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn 14-16 oed drwy astudio’r cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd newydd.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr addysg uwch, rydym yn symud i ffwrdd o orbwysleisio 'cywirdeb' tuag at werthfawrogi sut y gellir addasu iaith i'w defnyddio'n effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, cyd-destunau a chyweiriau. Byddai hyn yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth o gyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol sefyllfaoedd yn well.

Mae'r sgil o drawsieithu wedi'i chadw gan i randdeiliaid ddweud wrthym ei fod yn sgil hanfodol i ddysgwyr sydd yn byw, astudio a gweithio mewn cymdeithas ddwyieithog. Mae'n cefnogi’r nod o helpu dysgwyr i barhau i astudio a defnyddio'r iaith yn effeithiol, yn hyderus ac yn ddigymell fel rhan o Gymru fodern, ddwyieithog.

Mae ffocws ar sgiliau fydd yn datblygu defnydd hyderus, digymell ac annibynnol o’r Gymraeg, yn enwedig mewn asesiadau llafar. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau, gan gynnwys sefyllfaoedd bywyd go iawn.

**Q35: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno’n gryf**

**Q36: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn y dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau a nodir ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae ffocws penodol ar fedrau fydd yn datblygu defnydd hyderus, digymell ac annibynnol o’r Gymraeg, yn enwedig mewn asesiadau llafar. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau, gan gynnwys sefyllfaoedd bywyd go iawn**.** Credwn bod hyn yn hollbwysig.

**Cynnwys**

**Cynnig 5: Dylai fod gostyngiad yn nifer y testunau gosod y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu hastudio ar draws cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd i gefnogi pa mor hylaw a gafaelgar yw'r cymwysterau.**

Rydym yn cynnig gostyngiad yn nifer y testunau gosod y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu hastudio ar gyfer UG a Safon Uwch. Mae hyn yn adlewyrchu'r pryderon yr ydym wedi'u clywed am swmp y cynnwys yn y cymhwyster cyfredol a'r effaith negyddol y mae hyn yn ei chael ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer asesiadau o ystyried yr amser dysgu ac addysgu cyfyngedig.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod ailadrodd o fewn ac ar draws unedau yn y cymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith cyfredol o ran y math o gynnwys y mae'n ofynnol i ddysgwyr ei astudio. Gall hyn effeithio ar ddiddordeb ac arwain at ddyblygu mewn asesu. Roedd athrawon yn teimlo y gellid lleihau nifer y genres a thestunau heb effeithio'n negyddol ar gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a dangos eu gwybodaeth lenyddol a'u sgiliau cyfathrebu. Yn benodol, gallai gostyngiad mewn testunau gosod gynnig gwell cyfleoedd ar gyfer asesu sgiliau siarad yn ddigymell, gan fod llai o ffocws ar ddibynnu ar gynnwys a ddysgwyd ar gof mewn trafodaethau grŵp.

Mae'r cynnig hefyd yn adlewyrchu'r farn a rannwyd â ni bod angen amrywiaeth ehangach o gyd-destunau o fewn y cymhwyster, gan gynnwys llenyddol ac anllenyddol, ymarferol a chreadigol, er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn apelio at ystod ehangach o ddysgwyr. Mae defnyddwyr cymwysterau, gan gynnwys addysg uwch a chyflogwyr, wedi dweud wrthym mai dyma'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i gefnogi dilyniant pellach.

**Q37. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q38: Eglurwch eich ateb isod.**

Cefnogwn y cynnig parthed gostyngiad yn nifer y testunau gosod y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu hastudio ar gyfer UG a Safon Uwch a chytunwn byddai'n lleihau'r swmp gwaith o ran cynnwys yn y cymhwyster cyfredol. Cytunwn y gallai gostyngiad mewn testunau gosod gynnig gwell cyfleoedd ar gyfer asesu medrau siarad yn ddigymell, gan bod llai o ffocws ar ddibynnu ar gynnwys a ddysgwyd ar gof mewn trafodaethau grŵp**.** Byddai hyn yn magu mwy o siaradwyr naturiol yn y Gymraeg.

**Cynnwys**

Cynnig 6: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd gynnwys cyfleoedd i astudio amrywiaeth briodol o destunau llenyddol ac anllenyddol o wahanol gyfnodau, gan gynnwys:

- ffilm
- barddoniaeth
- straeon byrion
- testunau anllenyddol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at amrywiaeth o bwrpasau

Rydym yn cynnig cael gwared â'r gofyniad i ddysgwyr astudio drama. Er bod rhanddeiliaid yn glir y gall hyn fod yn elfen afaelgar o'r cymhwyster cyfredol, nodwyd y gall astudio ffilm ar gyfer UG a drama ar gyfer U2 arwain at ddyblygu o ran asesu gwybodaeth a sgiliau. Ar y llaw arall, gallai cael gwared â'r gofyniad i astudio drama roi hyblygrwydd yn nyluniad y cymhwyster i ddysgwyr ddatblygu a dangos eu sgiliau mewn ystod ehangach o gyd-destunau, gan gynnwys cyd-destunau bywyd go iawn.

Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf dros yr angen i ddysgwyr barhau i astudio ffilm fel testun gorfodol o fewn y cymhwyster newydd. Dywedodd dysgwyr ac athrawon wrthym fod hon yn elfen afaelgar a llwyddiannus o'r cymhwyster cyfredol, a'i bod yn cynnig profiad newydd gan nad yw ffilm yn rhan o'r cymwysterau TGAU Cymraeg Craidd na Lefel 2 Cymraeg Craidd Ychwanegol. Mae hyn hefyd yn sicrhau profiad cyffredin o 'lunyddiaeth' gyda dysgwyr sydd wedi astudio TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Wrth astudio ffilm, rydym yn glir y dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymdrin â thestunau a ffynonellau gwybodaeth ychwanegol, sydd yn adlewyrchu eu diddordeb personol. Gall hyn gynyddu ymwybyddiaeth o sut mae cyfryngau, celfyddydau a diwylliant Cymru yn cyfrannu at gymdeithas gyfoes ac yn adlewyrchu'r hyn y mae athrawon wedi'i ddweud wrthym ynglŷn â phwysigrwydd asesu synoptig i alluogi dysgwyr i archwilio amrywiaeth o destunau yn annibynnol.

Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon am y ffocws ar farddoniaeth yn y cymhwyster UG cyfredol, gan nodi y gall hyn fod yn naid sylweddol o'r cymhwyster TGAU. Gall hyn effeithio ar ba mor apelgar yw'r cymhwyster i ddarpar ddysgwyr. Rydym yn cynnig bod barddoniaeth yn cael ei chynnwys fel rhan o'r unedau U2 a'i bod yn cael ei hasesu trwy asesiad di-arholiad i gefnogi pa mor hylaw a gafaelgar fydd y cymhwyster i ddysgwyr.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym nad yw'r swmp cyfredol o farddoniaeth a straeon byrion yn hylaw ac y gall yr amser dysgu ac addysgu sydd ei angen i ymdrin â'r cynnwys dynnu sylw o baratoi dysgwyr yn effeithiol ar gyfer asesu. Rydym yn cynnig lleihau nifer y cerddi a'r straeon byrion y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu hastudio er mwyn cefnogi datblygu sgiliau yn well.

Fel rhan o'r ymgysylltu, gwnaethom ystyried y posibilrwydd o gynnwys nofel fel testun gosod amgen. Mae rhai rhanddeiliaid wedi sôn am argaeledd nofelau wedi'u hanelu at oedolion sydd yn dysgu Cymraeg y gellid eu haddasu ar gyfer dysgwyr 16-19. Ar ôl ystyried yr holl farnau a rannwyd â ni, gan gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â hydrinedd, nid ydym yn cynnig y newid hwn. Mae'n bwysig nodi bod barddoniaeth a straeon byrion wedi cael eu cynnwys yn ddiweddar yn y TGAU Cymraeg Craidd newydd gyda'r bwriad o gynnig sylfaen gadarn ar gyfer dilyniant.

**Q39: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**

**Q40: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn y dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd gynnwys cyfleoedd i astudio amrywiaeth briodol o destunau llenyddol ac anllenyddol o wahanol gyfnodau. Teimlwn efallai bod modd bod yn hyblyg yma – drwy gynnig y dewis o ddrama, ffilm, straeon byrion neu hyd yn oed nofel fer er mwyn sicrhau bod y pwnc yn ennyn diddordeb. Gan bod straeon byrion a barddoniaeth wedi cael eu cynnwys yn y TGAU Cymraeg newydd – tybed a oes yna mwy o le i amrywiaeth yma yn y Chweched Dosbarth?. Byddai astudio pob math o destunau hefyd yn rhoi hyder i astudio'r pwnc yn bellach.

## Strwythur asesu

Cynnig 7: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd newydd gynnwys amrywiaeth eang o ddulliau asesu, gan gynnwys:

- arholiad llafar
- arholiad ysgrifenedig allanol
- asesiad di-arholiad

Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys athrawon a dysgwyr, yn gwerthfawrogi'n fawr yr ystod eang o ddulliau asesu yn y cymhwyster cyfredol gan ei fod yn cefnogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau dilys a gafaelgar. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddangos eu gwybodaeth mewn ffyrdd heblaw trwy arholiadau allanol, rhywbeth nad yw bob amser yn cael ei gynnig ar draws yr amrywiaeth o bynciau UG a Safon Uwch y maent yn eu hastudio. Rydym yn cynnig bod ystod eang o ddulliau asesu yn parhau yn y cymhwyster newydd i adlewyrchu'r adborth cadarnhaol hwn, ac i gefnogi profiadau hylaw a gafaelgar i ddysgwyr a'u hathrawon.

Mae'r cynnig hwn hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau yn yr ystod o gymwysterau Cymraeg cenedlaethol 14-16 . Mae cadw maint priodol o asesiadau di-arholiad yn sicrhau bod elfen o hyblygrwydd i ganolfannau barhau i addasu dysgu ac addysgu i anghenion eu dysgwyr, gan gefnogi profiadau asesu hylaw, gafaelgar a chynhwysol.

**Q41: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q42: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn gyda'r cynnig i gynnwys amrywiaeth eang o ddulliau asesu a fydd yn fuddiol i'r dysgwyr a'r athrawon.

**Strwythur asesu**

**Cynnig 8: Yn y cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd, dylid asesu sgiliau llafaredd dysgwyr ar draws unedau UG ac U2. Dylai'r asesiadau llafar gynnwys cyfleoedd i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys rhai llenyddol ac anllenyddol. Dylai cyfanswm yr asesiadau llafar (ar draws UG a Safon Uwch) gyfrannu 45% o'r marciau at y cymhwyster cyfan.**

Rydym yn cynnig cadw arholiadau llafar fel gofyniad gorfodol mewn unedau UG ac U2 er mwyn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir ar sgiliau llafaredd yn y pwnc hwn. Mae athrawon yn cydnabod y pwysigrwydd y mae dysgwyr yn ei roi ar ddatblygu'r sgiliau hyn, ac roeddent yn glir mai dyma un o'r prif resymau am ddewis Cymraeg fel pwnc. Maent hefyd yn credu bod hyn yn helpu i wneud y cymhwyster yn fwy apelgar i ystod ehangach o ddysgwyr.

Mae athrawon yn cydnabod gwerth rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a dangos eu sgiliau llafaredd mewn cyd-destunau llenyddol. Dywedodd dysgwyr wrthym hefyd eu bod yn mwynhau'r elfen hon ac yn meddwl ei bod yn afaelgar. Fodd bynnag, dywedodd dysgwyr y byddent yn croesawu'r cyfle i gymhwyso ac i addasu'r sgiliau hyn i ystod ehangach o gyd-destunau gan gydnabod sut y gall hyn eu helpu i symud ymlaen i astudio ymhellach a'r byd gwaith. Dywedodd rhanddeiliaid ehangach wrthym fod angen i'r cyd-destunau hefyd adlewyrchu nodau ehangach ar gyfer creu defnyddwyr hyderus ac annibynnol o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys yn gymdeithasol ac yn y byd gwaith.

Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig bod yr asesiadau llafar yn U2 yn cynnwys tasgau grŵp ac unigol, gyda ffocws ar gymhwyso sgiliau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys ar gyfer y gweithle. Bydd y tasgau hyn yn galluogi dysgwyr i ddangos ystod ehangach o sgiliau fel siaradwyr hyderus a digymell mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd. Bydd y newid hwn hefyd yn cefnogi'r ymgyrch tuag at gysoni'r cymwysterau hyn â nodau strategol ehangach ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys datblygu sgiliau y gellir eu mapio yn erbyn y Disgrifyddion Iaith Cyffredin sydd yn cael eu datblygu yn y Cod ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg.

Mae'r cynnig i gynyddu pwysoliad yr asesiadau llafar o 40% o'r cymhwyster cyfredol cyfan i 45% o'r cymhwyster newydd cyfan yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir ar sgiliau llafar a nodau strategol ehangach ar gyfer y Gymraeg. Roedd rhai rhanddeiliaid o blaid cynyddu pwysoliad asesiadau llafar i 50% i gyd-fynd â'r pwysoliad yn y TGAU Cymraeg Craidd newydd. Fodd bynnag, rydym yn cynnig pwysoliad o 45% i sicrhau bod digon o gyfleoedd i gadw ystod eang o ddulliau asesu, gan gynnwys asesiadau di-arholiad ac arholiadau ysgrifenedig allanol.

**Q43: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**

**Q44: Eglurwch eich ateb isod.**

Yn y cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd, cytunwn y dylid asesu medrau llafaredd dysgwyr ar draws unedau UG ac U2 ac y dylai'r asesiadau llafar gynnwys cyfleoedd i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan

gynnwys rhai llenyddol ac anllenyddol. Mae'r elfen hon yn gwneud y pwnc yn fwy apelgar i ystod ehangach o ddisgyblion.

Rydym yn croesawu'r cynnig bod yr asesiadau llafar yn U2 yn cynnwys tasgau grŵp ac unigol, gyda ffocws ar gymhwyso medrau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys ar gyfer y gweithle.

Fodd bynnag, teimlwn dylai cyfanswm yr asesiadau llafar (ar draws UG a Safon Uwch) gyfrannu 50% o'r marciau at y cymhwyster cyfan ac nid 45% fel y cynigir. Bydd hyn yn pwysleisio pwysigrwydd yr elfen lafar yn ogystal â chyd-fynd â'r pwysoliad yn y TGAU Cymraeg Craidd newydd.

**Strwythur asesu**

**Cynnig 9: Dylai arholiadau llafar y cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd gael eu hasesu gan arholwr allanol.**

Roedd rhanddeiliaid yn glir bod dysgwyr yn mwynhau'r profiad o gael eu hasesu gan arholwr allanol gan ei fod yn rhoi profiad dilys iddynt o ddefnyddio Cymraeg mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mae hefyd yn ychwanegu ymdeimlad o statws ac achlysur ac yn gwahaniaethu'r asesiadau UG a Safon Uwch o brofiad blaenorol gyda chymwysterau.

Gall y cynnig i fynnu bod dysgwyr yn cael eu hasesu gan arholwr allanol gefnogi cysondeb mewn marcio a phrofiadau ar draws carfannau a rhwng canolfannau. Gall hyn sicrhau bod y cymwysterau yn cael eu gweld yn drylwyr, dibynadwy a dilys, yn ogystal â hylaw i ganolfannau.

Fel rhan o'r ymgysylltu, gofynnom i randdeiliaid ystyried unrhyw fanteision o asesiadau llafar y gellid eu cynnal trwy ddulliau amgen, fel cynadledda digidol. Roedd llawer o athrawon a dysgwyryn teimlo'n gryf y gallai hyn effeithio ar ba mor hylaw, dibynadwy a gafaelgar fydd yr asesiadau pwysig hyn.

**Q45: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno'n gryf**

**Q46: Eglurwch eich ateb isod.**
Cytunwn yn gryf dylai'r arholiadau llafar gael eu cynnal gan arholwyr allanol. Trwy wneud, mae'n rhoi statws i'r pwnc ac yn rhoi cyfrifoldeb a chyfle i ddisgyblion gyfathrebu gyda pherson nad ydyn nhw'n adnabod eisoes. Credwn bod y disgyblion yn elwa'n fawr ar gyfleoedd fel hyn ac yn bwysig iawn cadw'r arholi wyneb-yn wyneb. Mae'r defnydd o arholwyr allanol hefyd yn sicrhau cysondeb yn y safonau ar draws a chyfleoedd teg i bob disgybl.

**Strwythur asesu**

**Cynnig 10: Yn y cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd, dylai sgiliau llafaredd dysgwyr gael eu hasesu mewn tasgau grŵp ac unigol.**

Rydym yn cynnig cadw cyfleoedd i sgiliau llafaredd dysgwyr gael eu hasesu fel rhan o grŵp. Dywedodd rhanddeiliaid fod dysgwyr yn mwynhau rhyngweithio a defnyddio eu sgiliau llafaredd yn y modd hwn, sydd yn arwain at asesu iaith dilys all helpu i leihau gorbryder yn yr arholiad. Mae hefyd yn helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a digymell, a gall helpu i osgoi bod dysgwyr yn dibynnu'n ormodol ar ddeunyddiau wedi'u paratoi ymlaen llaw.

Fodd bynnag, mae dysgwyr ac athrawon hefyd yn cydnabod pwysicrwydd asesiadau sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu a dangos ystod ehangach o sgiliau, er enghraifft trwy gyflwyniadau unigol neu drwy dasgau trafod un-i-un gydag arholwr. Gall hyn wella tegwch, ac i rai dysgwyr, gynnig profiad asesu mwy hygyrch a chynhwysol. Wrth ystyried hyn, rydym yn cynnig y dylai'r cymhwyster newydd gynnwys tasgau grŵp ac unigol gan ei fod yn adlewyrchu'n well yr amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau lle bydd dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau llafaredd mewn bywyd, astudio ymhellach a'r byd gwaith.

**Q47: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q48: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn bod y cyfuniad o waith unigol a grŵp yn hanfodol bwysig i'r dysgwyr.

## Strwythur asesu

**Cynnig 11: Dylai'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd newydd gynnwys asesu drwy arholiad ysgrifenedig allanol yn unedau UG ac U2.**

Rydym yn cynnig bod y cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd newydd yn parhau i gynnwys arholiadau ysgrifenedig allanol ar draws unedau UG ac U2. Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys athrawon, o'r farn y gall hyn helpu i sicrhau y bydd y cymwysterau'n ddibynadwy, trwyadl, cadarn a hylaw.

Er gwaethaf hyn, roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf bod dau arholiad ysgrifenedig allanol ar ddiwedd y cwrs Safon Uwch yn creu heriau ynglŷn â pha mor hylaw yw'r asesiadau i ddysgwyr, gan achosi baich asesu. Rydym yn cynnig bod yr unedau U2 sydd yn cynnwys arholiadau ysgrifenedig allanol yn cael eu lleihau i un.

**Q49: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q50: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn ei bod yn bwysig parhau i gynnwys arholiadau ysgrifenedig allanol ar draws unedau UG ac U2. Ar sail barn rhanddeiliaid, cefnogwn y cynnig bod unedau U2 yn cael eu lleihau i un arholiad ysgrifenedig.

**Strwythur asesu**

Cynnig 12: Dylai'r amcanion asesu (AA) o fewn y cymhwyster gynnwys ymdrin ag amrywiaeth o is-rannau sydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- AA1 Deall ac ymateb (50%)
- Deall ac ymateb yn gydlynol i amrywiaeth o destunau llafar, ysgrifenedig a gweledol trwy ddewis a dehongli deunydd perthnasol.
- Coladu, cymharu a gwerthuso gwybodaeth a gyflwynir mewn amrywiaeth o destunau, croesgyfeirio o un testun i'r llall, crynhoi a dod i gasgliadau.
- Dangos gwybodaeth am destunau/pynciau penodol ac arwyddocâd eu cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol, gan ddadansoddi’n feirniadol.
- Gwrando ac ymateb i eraill ac ystyried eu cyfraniadau a'u safbwyntiau.
- Deall a dehongli testun trwy drawsieithu

AA2 Cyfathrebu a mynegiant (50%)

- Cyfathrebu'n effeithiol, yn glir ac yn hyderus, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion ieithyddol.
- Defnyddio gwybodaeth am ramadeg yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau.
- Cyfathrebu gan ddefnyddio cyweiriau ieithyddol amrywiol a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ac ar gyfer gwahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd.
- Datblygu safbwyntiau a syniadau perthnasol, crynhoi a dod i gasgliadau.

Mae'r amcanion asesu sydd yn cael eu cynnig yn adlewyrchu mewnbwn gan arbenigwyr pwnc ac asesu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â phwrpas, nodau a chynnwys y cymhwyster.

Maent hefyd yn adeiladu ar y dysgu 14-16 drwy’r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â chefnogi cysondeb â'r Lefelau Cyfeirio Cyffredin a fydd yn cael eu diffinio yng Nghod Llywodraeth Cymru ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg (gweler adran 3).

**Q51. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q52: Eglurwch eich ateb isod.**

Cytunwn gyda’r amcanion asesu.

**Cynnig 13: Amlinelliad o’r Cymhwyster**

**Mae'r tabl isod yn rhoi amlinelliad o'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith cyfredol:**

| Cyfredol | Uned | Pwysoliad |
|---|---|---|
| **UG** | Uned 1: Arholiad llafar<br><br>Rhan 1: Ffilm<br>Rhan 2: Ymateb personol | 15 % |
| | Uned 2: Asesiad di-arholiad | 10% |
| | Uned 3: Arholiad ysgrifenedig<br><br>Rhan 1: Iaith<br>Rhan 2: Barddoniaeth | 15% |
| **U2** | Uned 4: Arholiad llafar<br><br>Rhan 1: Byw trwy gyfrwng y Gymraeg<br>Rhan 2: Drama<br>Rhan 3: Ymateb personol | 25 % |
| | Uned 5: Arholiad ysgrifenedig<br><br>Rhan 1: Y Gymraeg yn y gymdeithas<br>Rhan 2: Trawsieithu | 15 % |
| | Uned 6: Arholiad ysgrifenedig<br><br>Rhan 1: Iaith<br><br>Rhan 2: Straeon byrion | 20% |

Mae'r amlinelliad o'r cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Craidd isod at ddibenion enghreifftiol yn unig. Rydym yn gwahodd ymatebwyr i roi adborth ar unrhyw agweddau. Efallai yr hoffech ystyried: strwythur y cymwysterau, cynnwys yr unedau, ystod y dulliau asesu, ystod y testunau ac elfennau sydd yn cael effaith o ran pa mor hylaw, gafaelgar, dibynadwy a dilys fydd y cymhwyster fel canlyniad.

UG

| Newydd | Uned | Pwysoliad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| **UG** | Uned 1: Arholiad llafar | 25 % | Arholiad llafar: Ffilm;<br>• tasg pâr/grŵp – ffilm (testun gosod)<br>• mynegi barn – trafodaeth yn canolbwyntio ar ddewis o themâu sydd yn gysylltiedig â'r testun gosod (cyfle i archwilio testunau llenyddol ac anllenyddol ychwanegol sydd yn gysylltiedig â'r thema) |
| | Uned 2: Arholiad ysgrifenedig | 15 % | Arholiad ysgrifenedig: uned integredig sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg yn y Gymdeithas<br>• archwilio amrywiaeth o gyd-destunau sydd yn gysylltiedig â datblygiad a statws yr iaith mewn cymdeithas (gan gynnwys astudio darnau o destunau llenyddol ac anllenyddol sydd yn galluogi dysgwyr i ddewis meysydd o ddiddordeb personol, gan gynnwys ffactorau llenyddol, hanesyddol, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol)<br>• trawsieithu |
| **U2** | Uned 3: Arholiad llafar | 20% | Arholiad llafar: tasgau ymarferol<br>• tasgau pâr/grŵp ac unigol i asesu sgiliau iaith ymarferol |
| | Uned 4: Asesiad di-arholiad | 10% | Asesiad di-arholiad: Llenyddiaeth gan gynnwys elfen synoptig<br>• barddoniaeth a straeon byrion (2 gerdd osod a 2 stori fer osod)<br>• tasgau'n canolbwyntio ar themâu sy'n gysylltiedig â'r testun gosod (cyfle i archwilio testunau llenyddol ac anllenyddol ychwanegol sydd yn gysylltiedig â'r thema) |
| | Uned 5: Arholiad Ysgrifenedig | 30 % | Arholiad ysgrifenedig: Elfennau iaith<br>• tasgau ymarferol sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu iaith<br>• elfen iaith synoptig |

**Q53: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

**Cytuno**

**Q54: Eglurwch eich ateb isod.**

Teimlwn byddai'n fuddiol codi'r canran Uned 3 Llafar i 25% yn hytrach na 20%.

Tybed a fyddai modd ychwanegu nofel fer yn opsiwn ychwanegol yn Uned 4?

**Asesiad Effaith Integredig**

**Q55: A ydych yn ymwybodol o unrhyw effeithiau rheoleiddio sy’n deillio o'r cynigion nad ydym wedi'u nodi?**

**Nac ydw**

**Q56: Os ydw, esboniwch eich ateb.**

**Q57: Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig* sy'n deillio o'r cynigion hyn nad ydym wedi eu nodi?**

*oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol

**Nac ydw**

**Q58: Os ydw, esboniwch eich ateb.**

**Q59: A ydych yn ymwybodol o unrhyw effeithiau ar yr iaith Gymraeg sy’n deillio o'r cynigion nad ydym wedi'u nodi?**

**Nac ydw**

**Q60: Os ydw, esboniwch eich ateb.**